Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Adolygiad o waith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mehefin 2017



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cynnwys | Tudalen


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **3** |
| **Argymhellion** | **5** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **6** |
| Datblygiad proffesiynol a hyfforddiant | 7 |
| Defnyddio adnoddau | 7 |
| **Darpariaeth** | **8** |
| Cynllunio darpariaeth | 8 |
| Cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg y tu allan i weithgareddau dysgu ffurfiol | 9 |
| Llais y dysgwr | 9 |
| **Safonau** | **10** |
| Ymrestru a niferoedd dysgwyr | 10 |
| Mesur cynnydd dysgwyr ac arfarnu safonau | 10 |
| **Atodiad 1: Sail y dystiolaeth** | **11** |
| **Geirfa** | **12** |
| **Cyfeiriadau** | **13** |

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu gwaith a chynnydd cychwynnol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol o ran cyflawni'r nodau a amlinellir yn ei chynllun strategol (Gyda'n Gilydd: Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, 2016) ac yn seiliedig ar yr argymhellion a wnaed yn 'Codi Golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion' (Llywodraeth Cymru, 2013).

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y modd y mae'r Ganolfan Genedlaethol yn dylanwadu ar, arwain a rheoli'r datblygiadau yn y sector Cymraeg i Oedolion yn dilyn ad-drefnu'r ddarpariaeth yn genedlaethol yn ddiweddar.  Mae hefyd yn ystyried i ba raddau y mae'r Ganolfan Genedlaethol yn darparu cyfeiriad cyson a chydlynus i'r ffordd y caiff darpariaeth ei chynllunio a'i chyflwyno gan yr 11 darparwr Cymraeg i Oedolion.

Mae'r adroddiad yn defnyddio holiaduron a lenwyd gan y Ganolfan Genedlaethol a'r 11 darparwr Cymraeg i Oedolion ac ar dystiolaeth ddogfennol arall.  Cyfwelwyd â staff o'r Ganolfan Genedlaethol ac o sampl o chwech o'r 11 darparwr.  Mae'r sampl yn cynrychioli gwasgariad daearyddol ledled Cymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig a threfol, ac mae'n cynnwys canolfannau rhanbarthol blaenorol a darparwyr newydd.

## Cefndir

Cyhoeddwyd 'Codi Golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion' (Llywodraeth Cymru, 2013) yng Ngorffennaf 2013.  Hwn oedd yr adolygiad llawn cyntaf o'r sector Cymraeg i Oedolion ers sefydlu'r chwe chanolfan Cymraeg i Oedolion ranbarthol yn 2006. Gwnaeth yr adolygiad gyfres o argymhellion, ac un o'r rhain oedd sefydlu 'endid cenedlaethol' i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu arweinyddiaeth strategol i'r sector. Byddai swyddogaethau'r endid cenedlaethol yn cynnwys datblygu'r cwricwlwm, hyfforddi tiwtoriaid, ymchwil, marchnata ac e-ddysgu.  Argymhellodd yr adroddiad y dylid lleihau nifer y darparwyr.  Roedd argymhellion eraill yn cynnwys cynyddu'r ddarpariaeth o ran cyrsiau dwys, a mireinio casglu data Cymraeg i Oedolion, ac olrhain dilyniant dysgwyr.

Argymhellodd yr adolygiad hefyd y dylai'r endid cenedlaethol:

- ddatblygu a gweithredu cynllun marchnata a chyfathrebu cynhwysfawr
- datblygu gwasanaeth hygyrch ar gyfer dysgwyr
- rhoi strategaeth Cymraeg yn y gweithle ar waith
- hyrwyddo Cymraeg ar gyfer y teulu
- datblygu strategaeth e-ddysgu arloesol
- datblygu fframwaith cwricwlwm
- adolygu cymwysterau Cymraeg i Oedolion
- datblygu strategaeth hyfforddi ar gyfer tiwtoriaid

Ym Mai 2015, dyfarnodd Llywodraeth Cymru y grant i sefydlu'r endid cenedlaethol i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCDDS). Mae'r grant am gyfnod o saith mlynedd o 2015-2022. Yn Ionawr 2016, creodd PCDDS gwmni cyfyngedig trwy warant, sef 'Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol / The National Centre for Learning Welsh', fel yr endid cenedlaethol. O dan ei femorandwm cymdeithasiad, yr unig aelod o'r cwmni yw PCDDS. Roedd prif weithredwr a thri chyfarwyddwr wedi eu penodi erbyn Chwefror 2016. Mae bwrdd y cyfarwyddwyr yn gyfrifol am yr agweddau cyfansoddiadol a chorfforaethol ar y Ganolfan Genedlaethol ac am sicrhau bod ei gweithdrefnau ariannol a rheoli risg yn briodol a thrylwyr. Mae gan y Ganolfan Genedlaethol fwrdd ymgynghorol sy'n cynghori ar roi ei hamcanion strategol ar waith.

Sefydlwyd pwyllgor annibynnol gan Lywodraeth Cymru i graffu ar waith y Ganolfan Genedlaethol. Ei rôl yw cynghori Llywodraeth Cymru ar faterion fel gwerth am arian, a pha mor dda y mae'r Ganolfan Genedlaethol yn ymateb i bolisïau Llywodraeth Cymru.

Ar 1 Awst 2016, trosglwyddwyd cyfrifoldeb llawn am y sector Cymraeg i Oedolion i'r Ganolfan Genedlaethol. Ailstrwythurodd y Ganolfan Genedlaethol ddarpariaeth ledled Cymru, gan ddisodli'r chwe chanolfan ranbarthol Cymraeg i Oedolion flaenorol a'u 20 a mwy o isgontractwyr ag 11 o ddarparwyr.

Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn darparu cyllid a chyfeiriad strategol ar gyfer yr 11 darparwr Cymraeg i Oedolion newydd. Dyfarnwyd contractau i'r darparwyr unigol gan y Ganolfan am gyfnod o dair blynedd yn y lle cyntaf. Bydd y Ganolfan yn derbyn £1,760,000 yn ystod blwyddyn academaidd 2016-2017 i ariannu ei gweithgareddau a buddsoddi mewn datblygiadau cenedlaethol fel y cwricwlwm, marchnata, a'r wefan ryngweithiol. Cafodd y Ganolfan £8,810,000 ar gyfer darparu cyrisau hefyd, ac fe gaiff hyn ei ddosbarthu ymhlith ei darparwyr.

Yng Ngorffennaf 2016, lluniodd y Ganolfan Genedlaethol ei chynllun strategol ar gyfer 2016-2020 yn dwyn y teitl 'Gyda'n Gilydd' (Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, 2016). Mae deilliannau a dyheadau'r Ganolfan Genedlaethol wedi eu hamlinellu yn y ddogfen hon, ynghyd â'i phum nod strategol, sef:

1) Datblygu rhaglen arloesol o gyrsiau deniadol ac addas ar gyfer dysgwyr, gan wneud defnydd llawn o'r dechnoleg ddiweddar
2) Datblygu cynlluniau arloesol i sicrhau cyfleoedd a chyd-destunau ble gall dysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus
3) Sefydlu rhwydwaith o ddarparwyr i gynnig gwasanaeth o ragoriaeth
4) Codi proffil y sector a chynyddu'r niferoedd sy'n dechrau cyrsiau ac yn parhau i ddysgu Cymraeg
5) Sefydlu a chynnal gweithdrefnau i gynorthwyo gwasanaethau

## Prif ganfyddiadau

1 Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn datblygu ei rôl yn dda fel llais cenedlaethol ar gyfer y sector Cymraeg i Oedolion. Mae'n darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer y sector ac mae wedi gwneud cynnydd o ran gwella a chytgordio dulliau o ddatblygu'r cwricwlwm, casglu data, datblygiad proffesiynol ac asesu ar draws y sector.

2 Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi ad-drefnu'r sector yn effeithiol, gan symud o chwe chanolfan ranbarthol a'u 20 is-gontractwr a mwy i 11 darparwr. Mae darparwyr yn gyfrifol am ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion yn eu hardaloedd daearyddol ac maent yn atebol i'r Ganolfan Genedlaethol am wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer oedolion sy'n dysgu Cymraeg.

3 Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi diffinio ei nodau a'i hamcanion strategol yn glir. Mae'n mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu'r sector, gan gynnwys y diffyg mesurau safonol sy'n arfarnu'r cynnydd a wnaed gan oedolion sy'n dysgu Cymraeg, a'r amrywiad eang mewn dulliau a ddefnyddir ar gyfer y cwricwlwm Cymraeg i Oedolion ledled Cymru.

4 Ar y cyfan, mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi bod yn llwyddiannus wrth gyfleu ei strategaethau a'i dulliau i'w darparwyr newydd. Teimla darparwyr fod staff y Ganolfan Genedlaethol yn gynhwysol ac yn bobl hawdd mynd atynt, ac maent yn gwybod pwy y gallant gysylltu â nhw os bydd angen cyngor arnynt. Fodd bynnag, rhai darparwyr yn unig sy'n gwbl ymwybodol o drefniadau llywodraethu'r Ganolfan Genedlaethol. Mewn rhai achosion, mae darparwyr yn amharod i groesawu'n llawn y cyfeiriad a ddarperir gan y Ganolfan Genedlaethol ac maent yn araf i dderbyn y newidiadau y mae'n eu hyrwyddo.

5 Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi sefydlu rhwydwaith o bwyllgorau a grwpiau i drafod dulliau cenedlaethol o ymdrin â materion pwysig o fewn y sector, er enghraifft cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio eu medrau Cymraeg y tu allan i wersi ffurfiol, marchnata, cwricwlwm a hyfforddiant. Mae'r pwyllgorau hyn yn gwella dulliau cyson o fewn y sector.

6 Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn cynnal cyfarfodydd monitro ffurfiol bob tymor gyda phob darparwr i drafod eu perfformiad a nodi unrhyw gamau y mae angen eu cymryd. Megis dechrau y mae'r broses hon, ac ar hyn o bryd, mae lleiafrif o ddarparwyr yn ansicr ynglŷn â chanlyniadau peidio â chyflawni eu targedau.

7 Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn datblygu strategaeth farchnata a chyfathrebu gynhwysfawr i hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg, ac annog mwy o oedolion i ddysgu'r iaith. Mae arfarniad y Ganolfan Genedlaethol o'r strategaeth hon, ac adborth gan ddarparwyr, yn dangos bod angen mireinio'r dull marchnata presennol er mwyn cyrraedd mwy o ddarpar ddysgwyr.

8 Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi cyflwyno systemau trylwyr i sicrhau bod darparwyr yn targedu cyfran fwy o'u cyllid ar weithgareddau addysgu a dysgu. Mae ei chontractau gyda darparwyr yn pennu bod gwariant ar weithgareddau heblaw addysgu a dysgu wedi ei gyfyngu i ddim mwy nag 15% o gyfanswm y cyllid a ddyrennir. Y ffigur cyfartalog ar hyn o bryd yw 7%.

9 Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn datblygu ystod newydd o gyrsiau ar lefelau mynediad, sylfaen, canolraddol ac uwch er mwyn sicrhau mwy o gysondeb yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ledled Cymru. Mae lefelau deilliant y cwricwlwm newydd yn cyd-fynd â Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd (CEFR). Bu'r Ganolfan Genedlaethol yn ymgynghori â darparwyr ynglŷn â'r newidiadau hyn ac mae wedi ymateb yn briodol i adborth.

10 Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn datblygu offeryn asesu ar-lein defnyddiol ar gyfer dysgwyr. Ni fydd yr offeryn yn gwbl weithredol nes y caiff y cwricwlwm newydd ei gwblhau, ac nid yw'n glir sut mae'r Ganolfan Genedlaethol yn bwriadu ei ddefnyddio i fesur cynnydd.

11 Ar hyn o bryd, mae darparwyr yn defnyddio eu systemau eu hunain ar gyfer gwrando ar safbwyntiau dysgwyr er mwyn gwella eu profiadau dysgu. Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn cyflwyno dull cyson ar draws yr holl ddarparwyr.

12 Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid ychwanegol i'r Ganolfan Genedlaethol i ddatblygu cyrsiau i addysgu Cymraeg yn y gweithle. Mae hyn yn ailrymuso rôl allweddol y Ganolfan Genedlaethol mewn cynllunio trwy gyfrwng y Gymraeg, er ei fod yn gosod gofynion ychwanegol ar y Ganolfan.

## Argymhellion

**Dylai'r Ganolfan Genedlaethol:**

A1 Ddatblygu ei gweithdrefnau ar gyfer dwyn y darparwyr i gyfrif am eu perfformiad a'u cydymffurfiad â'r polisïau cenedlaethol

A2 Mireinio ei strategaethau marchnata mewn cydweithrediad â darparwyr i dargedu mwy o ddarpar ddysgwyr ar draws cymunedau amrywiol Cymru

**Dylai darparwyr:**

A3 Roi'r polisïau a'r arferion a gyflwynwyd gan y Ganolfan Genedlaethol ar waith yn llawn

A4 Gwella eu dealltwriaeth o drefniadau a pholisïau llywodraethu'r Ganolfan Genedlaethol

## Arweinyddiaeth a rheolaeth – I ba raddau y mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn darparu cyfeiriad strategol clir i'r sector Cymraeg i Oedolion?

13 Yn y cyfnod cymharol fyr ers ei chreu, mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi dod yn llais cenedlaethol cryf dros y sector Cymraeg i Oedolion. Mae'n darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer y sector, ac mae wedi gwneud cynnydd o ran gwella a chytgordio dulliau o ddatblygu'r cwricwlwm, casglu data, datblygiad proffesiynol ac asesu.

14 Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi ad-drefnu'r sector yn llwyddiannus, gan symud o chwe chanolfan ranbarthol a'u 20 is-gontractwr a mwy i 11 darparwr. At ei gilydd, aethpwyd i'r afael â rhwystrau cychwynnol yn y broses bontio hon. Mae darparwyr yn gyfrifol am ddarpariaeth yn eu hardaloedd daearyddol, ac maent yn atebol i'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer targedau cytûn i wella safonau a darpariaeth.

15 Ar y cyfan, mae'r Ganolfan Genedlaethol yn cyfathrebu'n dda â'r ystod eang o ddatblygiadau y mae'n eu cyflwyno yn y sector. Mae bron pob darparwr yn ymwybodol o strwythurau mewnol y Ganolfan Genedlaethol a phwy y mae angen iddynt gysylltu â nhw ar gyfer gwahanol faterion. Ar hyn o bryd, ychydig o ddarparwyr yn unig sy'n ymwybodol o rôl y bwrdd ymgynghorol. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r llinellau atebolrwydd perthnasol rhyngddyn nhw eu hunain, eu sefydliadau sy'n lletya, a'r Ganolfan Genedlaethol. Mae rhai darparwyr wedi bod yn araf yn croesawu'r cyfeiriad a ddarperir gan y Ganolfan Genedlaethol yn llawn, a rhoi'r newidiadau sy'n cael eu hyrwyddo ar waith.

16 Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi datblygu rhaglen gynhwysfawr i fonitro perfformiad darparwyr. Mae darparwyr yn cyflwyno adroddiadau monitro bob tymor ac yn cyfarfod ag uwch swyddogion o'r Ganolfan Genedlaethol i drafod cynnydd. Bydd y targedau cytûn o'r flwyddyn academaidd hon yn cael eu defnyddio i sefydlu gwaelodlin ar gyfer targedau mwy ffocysedig a chraff y flwyddyn nesaf. Nid yw lleiafrif o ddarparwyr yn glir ynglŷn â'r hyn a allai ddigwydd pe na byddent yn cyflawni targedau, er bod esboniadau yng nghontractau darparwyr ac yng nghynllun gweithredol y Ganolfan. Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr gyflwyno ystod o adroddiadau, gan gynnwys adroddiad hunanasesu blynyddol ac adroddiad sicrhau ansawdd blynyddol. Nid yw pob darparwr yn glir ynglŷn â disgwyliadau'r Ganolfan Genedlaethol am adrodd nac am y fframwaith ansawdd cenedlaethol arfaethedig, er bod y fframwaith wedi ei gynnwys yn y cynllun strategol yr oedd darparwyr yn rhan o'i ddatblygu. Yn gyffredinol, mae darparwyr yn parhau i ddefnyddio gweithdrefnau sicrhau ansawdd sy'n bodoli eisoes.

17 Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi sefydlu pwyllgorau a grwpiau gorchwyl a gorffen i edrych ar agweddau penodol ar ddarpariaeth, fel y cwricwlwm ac adnoddau, dysgu anffurfiol a marchnata. Mae'r fforymau hyn yn cynnig cyfleoedd defnyddiol ar gyfer trafod materion ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'r holl ddarparwyr yn cyfrannu at y fforymau hyn. Er mai am gyfnod cymharol fyr yn unig y maent wedi bod yn weithredol, mae'r fforymau yn ffordd effeithiol o sefydlu ethos cynhwysol ar gyfer datblygiadau yn y sector.

18 Mae’r Ganolfan Genedlaethol wedi llunio strategaeth farchnata a chyfathrebu fanwl. Yn ystod Medi 2016, lansiodd y Ganolfan Genedlaethol ymgyrch ddwyieithog ar deledu cenedlaethol a amlygodd resymau dros ddysgu Cymraeg. Ategwyd yr ymgyrch hon gan ymgyrchoedd ar-lein a lleol i dargedu grwpiau penodol. Mae lleiafrif o ddarparwyr yn awgrymu bod y marchnata yn cael effaith uniongyrchol ar gynyddu ymrestriadau, er bod mwyafrif o ddarparwyr yn teimlo bod marchnata lleol yn fwy effeithiol. Mae’r Ganolfan Genedlaethol wedi craffu ar adborth o’r ymgyrchoedd hyn ac mae’n cymryd camau i wella effeithiolrwydd ei marchnata cenedlaethol.

### Datblygiad proffesiynol a hyfforddiant

19 Mae’r Ganolfan Genedlaethol yn datblygu prosesau effeithiol ar gyfer nodi a mynd i’r afael ag anghenion datblygiad proffesiynol yn y sector. Mae’n ofynnol i ddarparwyr gyflwyno eu cynlluniau gweithredu datblygiad staff eu hunain i’r Ganolfan Genedlaethol sy’n eu defnyddio i gynllunio rhaglenni hyfforddi lleol a chenedlaethol.

20 Mae’r Ganolfan Genedlaethol yn parhau i gynnig y Cymhwyster Cenedlaethol ar gyfer Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion trwy Brifysgol Caerdydd. Cynhelir cyrsiau yng Nghaerdydd ac ar y cyd gan Brifysgolion Bangor ac Aberystwyth yng nghanolbarth a gogledd Cymru. Bydd y Cymhwyster Cenedlaethol yn cael ei gynnig yn ei ffurf bresennol, sef dysgu cyfunol, yn ystod 2016-2018, cyn cael ei ddiwygio a’i ddiweddaru i ystyried datblygiadau fel y cwricwlwm cenedlaethol newydd, gan fwriadu cynnig y cymhwyster newydd o 2018 ymlaen.

### Defnyddio adnoddau

21 Mae’r cyllid a ddyrennir i ddarparwyr wedi ei seilio ar sut maent yn cynllunio i roi nodau ac amcanion y Ganolfan Genedlaethol ar waith, a’u cynnydd yn erbyn targedau cytûn. Mae’r Ganolfan Genedlaethol yn derbyn adroddiadau ariannol tymhorol defnyddiol gan bob darparwr, sy’n helpu i fonitro i ba raddau y caiff yr adnoddau ariannol eu gwario ar addysgu a dysgu. Mae’r Ganolfan Genedlaethol wedi cyflwyno systemau trylwyr i sicrhau bod darparwyr yn targedu cyfran fwy o gyllid at weithgareddau addysgu a dysgu. Mae contractau â darparwyr yn pennu bod gwariant ar weithgareddau heblaw addysgu wedi ei gyfyngu i ddim mwy nag 15% o gyfanswm y gwariant a ddyrannwyd. Yn ôl data nas gwiriwyd y Ganolfan Genedlaethol, y ffigur cyfartalog presennol yw 7%.

## Darpariaeth – Sut mae'r arweinyddiaeth a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn effeithio ar y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ledled Cymru?

### Cynllunio darpariaeth

*22* Ers ei dechrau, mae cryn dipyn o amser ac adnoddau'r Ganolfan Genedlaethol wedi cael eu buddsoddi mewn datblygu ei chwricwlwm cenedlaethol newydd. Ar hyn o bryd, nid oes cwricwlwm na set gyffredin o gyrsiau Cymraeg i Oedolion yn cael eu haddysgu ledled Cymru. Mae cyrsiau Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) ar gael i fodloni anghenion dysgwyr Cymraeg ar dair lefel wahanol ac maent yn arwain at arholiadau Cymraeg i Oedolion CBAC, sy'n cyd-fynd â Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd (CEFR). Fodd bynnag, nid yw pob darparwr yn defnyddio'r cyrsiau hyn. Datblygwyd ystod o wahanol gyrsiau dros y blynyddoedd, ac roedd llawer ohonynt yn cysylltu'n fras â chynnwys arholiadau CBAC ac yn bennaf ar gyfer darpariaeth ddwys fel cyrsiau 'Wlpan'[1]. Er bod ystod eang y cyrsiau ar gael ledled Cymru yn rhoi dewis i ddysgwyr, arweiniodd hefyd at anghysondebau yn y ddarpariaeth a'r profiadau dysgu. Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn mynd i'r afael â'r amrywioldeb hwn trwy ddatblygu ystod newydd o gyrsiau ar lefelau mynediad, sylfaen, canolradd ac uwch. Mae lefelau deilliant y cwricwlwm newydd yn cyd-fynd â'r CEFR. Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi ymateb yn briodol i adborth a ddaeth i law yn ystod ei hymgynghori â darparwyr ynglŷn â datblygu'r cyrsiau lefel mynediad ac uwch.

23 Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi canolbwyntio ar helpu darparwyr i gynyddu darpariaeth mewn meysydd targed allweddol, yn arbennig cynyddu darpariaeth ddwys, dilyniant gwell rhwng lefelau, darpariaeth 'Cymraeg ar gyfer y Teulu', a 'Cymraeg yn y Gweithle'. Mae targedu darpariaeth o'r newydd fel hyn yn helpu i ddatblygu dull mwy strategol o gynyddu niferoedd y dysgwyr Cymraeg mewn ardaloedd sy'n bwysig i gynllunio ieithyddol yng Nghymru. O ganlyniad, mae rhai darparwyr wedi cadw cyrsiau'n agored gyda niferoedd is i ddatblygu darpariaeth yn y meysydd targed allweddol hyn, er enghraifft 'darpariaeth ddwys', er ni fyddent wedi cynnal cyrsiau o'r fath yn y gorffennol.

24 Dyrannwyd cyllid ychwanegol sylweddol o hyd at £3m i'r Ganolfan Genedlaethol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2017-2018 i ddarparu cyfleoedd yn y gwaith i ddysgwyr wella eu medrau Cymraeg. Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn canolbwyntio'r gwaith hwn ar recriwtio mewn gweithleoedd, yn amodol ar Safonau'r Gymraeg. Dyma'r pum elfen yn y cynllun hwn:

- gwasanaeth a gwybodaeth i gyflogwyr ddarparu arweiniad ar sut i ddatblygu hyfforddiant ar gyfer staff a sicrhau gwerth am arian

[1] Cwrs Cymraeg dwys i ddechreuwyr yw Wlpan. Caiff patrymau iaith sylfaenol eu haddysgu mewn cyfnod mor fyr ag y bo modd gan roi pwyslais ar yr iaith lafar. Wlpan yw'r fersiwn Gymraeg o'r gair Hebraeg, Ulpan, sy'n golygu 'stiwdio'. Datblygwyd y fethodoldeb yn Israel er mwyn addysgu Hebraeg yn y wladwriaeth newydd a grëwyd, a chynhaliwyd y cwrs cyntaf yn Jerwsalem ym 1948. Cynhaliwyd y cwrs Wlpan cyntaf yng Nghymru ym 1973.

- cyrsiau Cyfarfod a Chyfarch ‘Croeso Cymraeg Gwaith’ ar-lein
- cyrsiau iaith amser llawn tri mis dwys (35 awr yr wythnos) ar bob lefel
- cyrsiau preswyl pum niwrnod ‘Defnyddio’r Gymraeg yn y Gwaith’ ar bob lefel
- Cyrsiau Cymraeg Cynnar ar gyfer gweithwyr y blynyddoedd cynnar

25 Bydd y ddarpariaeth uchod yn targedu 80 o gyflogwyr i gyd, a thros 1,500 o unigolion. Er bod y baich gwaith ychwanegol hwn yn rhoi pwysau ar y Ganolfan Genedlaethol, mae’n rheoli’r broses dendro ac yn cyflwyno’r cyrsiau hyn yn effeithiol ac o fewn yr amserlenni penodol.

### Cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg y tu allan i weithgareddau dysgu ffurfiol

26 Ail amcan strategol y Ganolfan Genedlaethol yw bod darparwyr yn sicrhau cyfleoedd digonol i ddysgwyr ddefnyddio’r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol i wella eu rhuglder a’u hyder. Disgwylir i’r 11 darparwr Cymraeg i Oedolion ddarparu nifer benodol o oriau o Ffocws ar Ddysgu Cymunedol (CLIF), er enghraifft o leiaf 18 awr mewn rhaglenni dysgu sy’n para 50-190 awr. Mae’r Ganolfan Genedlaethol yn cydnabod bod darpariaeth CLIF yn amrywio rhwng gwahanol ddarparwyr ac mae wedi datblygu canllawiau cliriach ar y modd y dylai darparwyr gynllunio cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg y tu allan i weithgareddau ystafell ddosbarth ffurfiol. Mae darparwyr yn cefnogi’r canllawiau hyn, er ei bod yn ddyddiau cynnar o ran eu rhoi ar waith.

### Llais y dysgwr

27 Ar hyn o bryd, mae’r 11 darparwr yn defnyddio eu prosesau eu hunain i wrando ar safbwyntiau dysgwyr er mwyn gwella eu profiadau dysgu. Nid yw’r prosesau hyn wedi eu datblygu’n ddigonol mewn rhai o’r darparwyr. Mae cynllun gweithredol y Ganolfan Genedlaethol wedi nodi’r angen i greu dull cenedlaethol cyson o ran llais y dysgwr, gan gynnwys arolwg cenedlaethol o’r holl ddysgwyr Cymraeg i Oedolion.

## Safonau – Sut mae'r arweinyddiaeth a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn effeithio ar niferoedd y dysgwyr ledled Cymru, a'r safonau ar eu cyfer?

### Ymrestru a niferoedd y dysgwyr

28 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu tuedd ar i lawr yn nifer yr oedolion yn cofrestru ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion. Yn 2011-2012, roedd 18,050 o ddysgwyr ar gyrsiau ledled Cymru (Llywodraeth Cymru, 2013) ac mae'r ffigur hwn wedi gostwng i 14,935 yn 2015-2016 er bod cynnydd bychan yn 2015-2016. Roedd hyn yn cynnwys cyfnod o ostyngiad mewn cyllid ar gyfer y sector (Llywodraeth Cymru, 2017). Mae ffigurau heb eu dilysu ar gyfer rhwng Awst a Rhagfyr 2016 yn dangos bod nifer y dysgwyr yn ystod blwyddyn academaidd 2016-2017 fwy neu lai ar y trywydd iawn i fodloni targed y Ganolfan Genedlaethol, sef 16,000 o ddysgwyr.

### Mesur cynnydd dysgwyr ac arfarnu safonau

29 Roedd y chwe chanolfan Cymraeg i Oedolion flaenorol yn defnyddio gwahanol ddulliau o gasglu a dadansoddi data gan eu 20 a mwy o isgontractwyr, gan ei gwneud yn anodd cymharu deilliannau dysgwyr ledled Cymru. Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi ymgynghori'n helaeth â darparwyr a Llywodraeth Cymru ynglŷn â chynllun newydd ar gyfer rheoli data. Mae'r cynllun yn amlinellu'r meysydd data y mae'n bwriadu eu casglu ar draws darparwyr. Bydd gwefan ryngweithiol yn darparu system rheoli cynnwys a fydd yn coladu a storio data dysgwyr o Fedi 2017 ymlaen. Mynegodd yr holl ddarparwyr eu cefnogaeth dros gael cysondeb gwell yn y ffordd y caiff data ei goladu a'i ddefnyddio yn y sector.

30 Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn arbrofi ag offeryn asesu ar-lein i asesu cynnydd dysgwyr mewn darllen, ysgrifennu a gwrando a gwybodaeth am eirfa ac iaith. Mae darparwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot yn croesawu'r cynllun ar y cyfan, er gwaethaf anawsterau technegol cychwynnol. Nid yw'n glir ar hyn o bryd sut na ph'un a fydd data o asesiadau o'r fath yn cael ei gofnodi neu'i ddefnyddio i fesur cynnydd dysgwyr yn unol â'r hyn a awgrymwyd yn Amcan Strategol Un Gyda'n Gilydd, '*Bydd y system yn rhoi cyfle rhagorol i ddarparwyr a'r Ganolfan fesur cynnydd dysgwyr ledled Cymru.'* (Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, 2016, tud. 8). O ystyried natur ffurfiannol ac anorfodol yr asesiadau, mae'n parhau i fod yn aneglur sut bydd modd defnyddio data o'r fath yn effeithiol i fesur cynnydd yn feintiol ar lefel darparwr neu ar lefel genedlaethol.

# Atodiad 1: Darparwyr Cymraeg i Oedolion

Darparwyr Cymraeg i Oedolion presennol a'u hardaloedd daearyddol:

- Prifysgol Bangor / Grŵp Llandrillo Menai (Gwynedd / Ynys Môn / Conwy)
- Coleg Cambria / 'Popeth Cymraeg' (Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam)
- Nant Gwrtheyrn (cyrsiau preswyl sydd wedi eu lleoli yn Llithfaen, Gwynedd)
- Prifysgol Aberystwyth (Ceredigion / Powys a chyrsiau dwys yn Sir Gâr)
- Cyngor Sir Gâr (cyrsiau nad ydynt yn rhai dwys Sir Gâr yn unig)
- Cyngor Sir Penfro (Sir Benfro)
- Prifysgol Abertawe (Academi Hywel Teifi) (Abertawe, Castell-nedd Port Talbot)
- Prifysgol De Cymru (Rhondda Cynon Taf / Merthyr Tudful / Pen-y-bont ar Ogwr)
- Cyngor Bro Morgannwg (Bro Morgannwg)
- Prifysgol Caerdydd (Dinas a Sir Caerdydd)
- Coleg Gwent (siroedd yng Ngwent)

# Atodiad 2: Geirfa

| | |
|---|---|
| **CiO** | Cymraeg i Oedolion |
| **Y Ganolfan Genedlaethol** | Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol |
| **PCDDS** | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| **CEFR** | Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd |
| **CBAC** | Cyd-bwyllgor Addysg Cymru |
| **CLIF** | Ffocws ar Ddysgu Cymunedol |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru, yr Adran Addysg a Sgiliau (2013) *Codi Golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/130712-review-welsh-for-adults-cy.pdf [Defnyddiwyd 27 Mawrth 2017]

Llywodraeth Cymru (2017) *Niferoedd a chofrestriadau Dysgwyr Cymraeg i Oedolion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/welshforadults-learners-enrolments [Defnyddiwyd 24 Mai 2017]

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (2016) *Cynllun Strategol 2016-2020.* Caerfyrddin: Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. [Ar-lein]. Ar gael o: https://dysgucymraeg.cymru/media/1148/final-single-page-cynllun-strategol_cymraeg_ygdcg_print.pdf [Defnyddiwyd 27 Mawrth 2017]